



DISGRIFIAD SWYDD

Teitl:	Swyddog Cynnwys Digidol / Cymorth Gweinyddol
Cyfeirnod Swydd:	00619
Math o contract:	Llawn Amser, Parhaol
Cyflog:	Gradd 4 (£21,585 - £24,983 y flwyddyn)
Lleoliad:	Campws Caerfyrddin
Yn adrodd i:	Prif Swyddog Trefniadaeth

PRIF BWRPAS Y SWYDD

Mae'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol yn gyfrifol am roi arweiniad strategol i'r maes dysgu Cymraeg i Oedolion.

Nod y Ganolfan yw denu dysgwyr newydd at y Gymraeg a chynyddu'r niferoedd sy'n defnyddio'r iaith bob dydd. Bydd y Ganolfan yn sicrhau bod dysgwyr o bob cefndir yn cael croeso, cefnogaeth ac anogaeth ar eu taith i ddysgu'r iaith. Bydd y Ganolfan yn gwneud ei gwaith yn broffesiynol, yn flaengar a chydag ymrwymiad.

Dechreuodd y Ganolfan ar ei gwaith ar 1 Awst 2016. Yn ei Chynllun Strategol, ymhelaethir ar sut y bydd yn mynd ati i gyflawni'r gwaith. Bydd y Ganolfan yn cydweithio'n agos â'i darparwyr fydd yn cynnig rhaglen o wersi a gweithgareddau i ddysgwyr a gyda thiworiaid ymroddedig i feithrin ymdeimlad o un tîm cenedlaethol yn gweithio tuag at yr un nod.

Mae tîm o staff yn gweithio i'r Ganolfan, ac rydym yn chwilio am aelodau ychwanegol fydd â'r gallu a'r penderfyniad i yrru newid. Rydym eisiau tîm a fydd yn gallu gwednewid agweddu, cynnig arweiniad strategol ac ysbrydoledig ar lefel genedlaethol ynghyd â chefnogaeth ystyrlon ar gyfer dysgwyr a darparwyr fel ei gilydd.

Mae'r Ganolfan wedi ei sefydlu fel cwmni gan Brifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant i weithredu cytundeb sydd wedi ei gynnig gan Lywodraeth Cymru tan 2022.

Mae strwythur y Ganolfan wedi ei rannu i dair cyfarwyddiaeth, sydd â rolau gweithredol er mwyn arwain adrannau fydd yn gyrru'r weledigaeth genedlaethol, sef:

Cyfarwyddiaeth Marchnata
Cyfarwyddiaeth Strategol
Cyfarwyddiaeth Systemau

Mae'r Swyddog Cynnwys Digidol/Cymorth Gweinyddol yn swydd newydd o fewn y Gyfarwyddiaeth Systemau. Mae'r swydd yn cynnig cyfle i unigolyn ddatblygu sgiliau amrywiol gweinyddol a chreu cynnwys digidol. Cynigir hyfforddiant llawn ar elfennau arbenigol y swydd e.e. defnyddio rhaglen creu cynnwys digidol Articulate.



PRIF DDYLETSWYDDAU

- Datblygu llyfrgell o adnoddau digidol i gyd-fynd â chyrsgiau Dysgu Cymraeg newydd.
- Cynorthwyo i reoli cynnwys digidol y Ganolfan gan gynnwys trefnu a chyhoeddi cynnwys amlygfrwng ar y Safle Rhyngweithiol newydd.
- Cyfrifoldeb am ddelio ag ymholiadau cyffredinol gan gynnwys e-byst a galwadau ffôn.
- Cyfrifoldeb dros gynorthwyo gydag archebion y Ganolfan, gan gynnwys llogi ystafelloedd, trefnu llety a thrafnidiaeth a mewnbynnu archebion i'r system cyllid.
- Cyfrifoldeb dros gynorthwyo gyda threfnu cyfarfodydd cyffredinol y Ganolfan.
- Cynrychioli'r Ganolfan yn ôl y galw: e.e. mewn digwyddiadau.
- Darparu cefnogaeth weinyddol cyffredinol i'r Ganolfan
- Ymgymryd ag unrhyw ddyletswyddau eraill sy'n gydnaws ac yn gymesur â'r swydd yn unol â dymuniad y Cyfarwyddwr Systemau



MANYLEB YR UNIGOLYN		
	Hanfodol	Dymunol
Addysg a Chymwysterau	a) Gradd mewn disgyblaeth berthnasol (neu'r profiad proffesiynol cyfwerth)	b) Cymhwyster penodol mewn maes cysylltiol (gweinyddol, technoleg gwybodaeth, cynnwys digidol, gwasanaeth cwsmeriaid)
Profiad	c) Profiad o waith gweinyddol amrywiol d) Profiad o ddelio â chwsmeriaid drwy ymateb i ymholiadau amrywiol e) Profiad o weithio'n effeithiol fel unigolyn, fel rhan o dîm ac mewn partneriaeth ag eraill	f) Profiad o ddefnyddio rhaglenni creu cynnwys digidol e.e Articulate
Galluoedd a Sgiliau	g) Y gallu i gyfathrebu'n dda drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg – ar lafar ac yn ysgrifenedig h) Y gallu i gyflawni gwaith yn erbyn terfynau amser tynn i) Meddu ar sgiliau rhyngpersonol a chyfathrebu da gyda'r gallu i gyfathrebu'n effeithiol ar bob lefel. j) Meddu ar sgiliau digidol da	
Anghenion eraill	k) Barod i deithio i fodloni gofynion sy'n ymwneud â'r swydd ac i weithio o amrywiol leoliadau pan fo angen l) Meddu ar drwydded yrru gyfredol a dilys	

Er eich lles eich hun, dylech nodi'n fanwl yn eich cais sut yr ydych yn bodloni'r meini prawf a nodir. Fe'ch anogir i ddarparu enghreifftiau perthnasol a phenodol, (o'r gweithle, gwaith gwirfoddol neu waith yn y gymuned, neu unrhyw sefyllfa briodol arall) fel y gall y panel a fydd yn llunio'r rhestr fer weld yn glir ble mae eich gwybodaeth a'ch profiad yn cyfateb i'r meini prawf a nodir ar gyfer y swydd.